# Agenda - Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a: |
| **Fideo gynadledda drwy Zoom** | **Robert Donovan** |
| Dyddiad: Dydd Mercher, 14 Hydref 2020 | Clerc y Pwyllgor |
| Amser: 09.15 | 0300 200 6565 |
| | SeneddESS@senedd.cymru |

## Rhag-gyfarfod preifat (09.15-09.45)

**Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, mae'r Cadeirydd wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor at ddibenion diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar www.senedd.tv**

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.45)

## 2 Papur(au) i'w nodi

(09.45)

**2.1 Llythyr gan Weinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru ynglyn â: Llythyr Cylch TfW**

(Tudalennau 1 - 7)

**Dogfennau atodol:**

EIS(5)-20-20 – Papur i'w nodi 1

EIS(5)-20-20 – Papur i'w nodi 1a

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 3 Covid-19: Adferiad - Diweithdra ymhlith pobl ifanc

(09.45-10.45) (Tudalennau 8 - 22)

Dr Sioned Pearce, Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol, Prifysgol Caerdydd

Yr Athro Ewart Keep, yr Adran Addysg, Prifysgol Rhydychen

Laura-Jane Rawlings, Prif Swyddog Gweithredol, Youth Employment UK

**Dogfennau atodol:**

EIS(5)-20-20 - Papur 2: Papur Briffio

## Egwyl (10.45-10.55)

## 4 Covid-19: Adferiad i bawb

(10.55-11.55)

Cerys Furlong, Prif Weithredwr, Chwarae Teg

Dr Alison Parken, Ysgol Busnes Caerdydd, Prifysgol Caerdydd

Ruth Coombs, Pennaeth Cymru, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Rhian Davies, Prif Weithredwr, Anabledd Cymru

## 5 Ystyried Bil Memorandwm Cydsyniad DeddfwriaetholY Bil Ardrethu Annomestig (Rhestrau) (Rhif 2)

(11.55-12.00) (Tudalennau 23 - 25)

**Dogfennau atodol:**

EIS(5)-20-20 - Paper 3: Cyngor cyfreithiol

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(12.00)

## 7 Adroddiad drafft: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Y Bil Ardrethu Annomestig (Rhestrau) (Rhif 2)

(12.00–12.10) (Tudalennau 26 - 29)

**Dogfennau atodol:**

EIS(5)-20-20 Paper 4: Adroddiad drafft (Saesneg yn unig)

## 8 Preifat

(12.10–12.20) (Tudalennau 30 - 34)

Ystyried tystiolaeth yn dilyn y cyfarfod

Cynllluniwr Gwaith Ymlaen

**Dogfennau atodol:**

EIS(5)-20-20 - Papur 3: Papur trafod y Rhaglen Gwaith Ymlaen - hydref 2020 (Saesneg yn unig)

**Ken Skates AC/AM**
**Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth**
**Minister for Economy and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Russell George AS
Cadeirydd – Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

SeneddEIS@senedd.wales

8 Hydref 2020

Annwyl Russell,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 19 Awst ynghylch llythyr cylch gwaith diweddaraf Trafnidiaeth Cymru.

Mae llythyr cylch gwaith a gyhoeddwyd i Trafnidiaeth Cymru ar gyfer y cynfod interim 1 Ebrill tan 30 Mehefin bellach wedi ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. Rwyf yn amgáu copi. Mae'r cylch gwaith ar gyfer gweddill y flwyddyn yn cael ei gwblhau ar hyn o bryd a caiff ei gyhoeddi'n fuan. Unwaith y caiff ei ryddhau bydd hefyd yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. Rwy'n eich sicrhau, yn ystod y cyfnod hynod anodd hwn bod swyddogion yn y ddwy swyddfa wedi bod yn gweithio yn hynod agos i ddarparu gwasanaeth effeithiol i'r cyhoedd.

Yn gywir

**Ken Skates AC/AM**
Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth
Minister for Economy and Transport

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Ken Skates AS/MS**
**Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru**
**Minister for Economy, Transport and North Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/KS/1185/20

Scott Waddington
Cadeirydd – Trafnidiaeth Cymru

Scott.Waddington@tfw.wales

12 Mai 2020

Annwyl Scott,

**Llythyr cylch gwaith interim ar gyfer Trafnidiaeth Cymru – trefniadau brys**

Mae'r Llythyr Cylch Gwaith hwn yn amlinellu cylch gwaith gweithredol interim ar gyfer Trafnidiaeth Cymru (TC) o 1 Ebrill 2020 ymlaen. Mae'n ymdrin â'r cyfnod cyfredol ac yn adlewyrchu'r trefniadau brys a wnaed gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru er mwyn mynd i'r afael â'r argyfwng Covid-19. Bydd y cylch gwaith hwn yn cael ei adolygu ddiwedd y chwarter hwn, a bydd llythyr cylch gwaith arall yn cael ei gyhoeddi ychydig cyn 1 Gorffennaf 2020 i amlinellu'r gofynion ar gyfer cam nesaf yr ymateb i COVID-19 ac ar gyfer gweddill y flwyddyn ariannol.

Hoffwn ddiolch ichi ac i'r Bwrdd am eich arweiniad, ac i staff Trafnidiaeth Cymru am eich proffesiynoldeb a'ch ymroddiad wrth gyflawni'ch amcanion y llynedd ac am yr ymateb i'r tywydd garw difrifol a welwyd yn ddiweddar ac i'r argyfwng sy'n wynebu'r wlad ar hyn o bryd.

Mae'r sefyllfa sy'n ein hwynebu ar hyn o bryd yn golygu bod angen cyhoeddi'r cylch gwaith interim hwn, sy'n cyfarwyddo,TC i fynd i'r afael ar unwaith â nifer o flaenoriaethau sy'n gysylltiedig â rhedeg y rhwydwaith trafnidiaeth.

I helpu gyda'r sefyllfa sydd ohoni, hoffwn weld TC yn mynd i'r afael â'r blaenoriaethau a ganlyn yn ystod chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol ac yn mynd ati wedyn ar y cyd â swyddogion Llywodraeth Cymru i ddechrau cynllunio'r amcanion strategol ar gyfer cyfnod yr adferiad, er mwyn paratoi ar gyfer gweithredu yn ôl ei arfer.

Wrth ystyried y blaenoriaethau isod, hoffwn i TC hefyd amlinellu'r hyn sydd ganddo mewn golwg ar gyfer ymateb i argyfwng COVID-19 a sut, yn benodol, y mae am fanteisio ar y cyfleoedd i arfer yr hyblygrwydd a amlinellwyd gan Lywodraeth y DU a chan Lywodraeth Cymru.

Wrth gyhoeddi'r llythyr cylch gwaith hwn, cydnabyddir bod gan TC, ac yntau'n gwmni cofrestredig o dan Ddeddf Cwmnïau 2006, hunaniaeth gyfreithiol glir o fewn fframwaith cadarn a sefydlog sy'n caniatáu iddo wneud penderfyniadau ar weithredu. Er hynny, mae swyddogaethau gweithredol yn parhau yn nwylo Gweinidogion Cymru ac mae'n ofynnol i TC, wrth iddo ymgymryd â'i waith, gyflawni'r swyddogaethau hynny ar ran Gweinidogion

Cymru yn unol â'r cylch gwaith hwn a'r holl rwymedigaethau cyfreithiol perthnasol sydd arno. Ac yntau'n is-gwmni sydd ym mherchnogaeth lwyr Gweinidogion Cymru, mae TC yn rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru a rhaid iddo weithredu er budd y cyhoedd.

**Y blaenoriaethau ar hyn o bryd**

**Y Rheilffyrdd**

Gwasanaeth Rheilffyrdd Cymru a'r Gororau

Mae Gweinidogion Cymru wedi gofyn i TC gyflawni ei swyddogaethau o ran y Cytundeb Grant rhwng Gweinidogion Cymru a'r Gweithredwr a'r Partner Cyflawni (GaPC) ar gyfer gwasanaethau rheilffyrdd Cymru a'r Gororau ac ar gyfer darparu Metro De Cymru.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, yn awdurdodi TC i gyflawni holl swyddogaethau, hawliau a phwerau Gweinidogion Cymru er mwyn helpu i gyflawni'r Cytundeb Grant â'r GaPC. Rhaid i TC barhau i sicrhau bod y GaPC yn darparu gwasanaethau trenau sy'n gyson uchel eu hansawdd ac yn ddibynadwy ar gyfer yr holl deithwyr ar draws Cymru a'r Gororau, gan wneud hynny yn unol â'r Cytundeb Grant gyda'r GaPC.

Bydd TC yn parhau i gydweithio â'r GaPC i sicrhau bod gwasanaethau rheilffordd ar gael er mwyn i weithwyr allweddol fedru teithio i'r gwaith ar y trên er mwyn cynnal gwasanaethau hanfodol drwy gydol y cyfnod hwn o argyfwng.

Rhaid i TC hefyd weithio gyda Llywodraeth Cymru i baratoi cynlluniau, erbyn diwedd mis Mai 2020, lle bydd Gweinidogion Cymru naill ai'n ymrwymo i Gytundeb Mesur Brys gyda'r GaPC neu lle bydd Gweinidogion Cymru, fel Gweithredwr pan Fetha Popeth Arall, yn darparu'r gwasanaethau rheilffordd y maent yn awdurdod masnachfreinio ar eu cyfer, neu'n sicrhau bod y gwasanaethau hynny'n cael eu darparu.

Trosglwyddo Ased Cledrau Craidd y Cymoedd

Trosglwyddwyd ased Cledrau Craidd y Cymoedd i TC ar 28 Mawrth 2020. Rhaid i TC, felly, ddatblygu ei allu i arfer rheolaeth ar asedau rheilffordd yn syth, a hefyd i arfer rheolaeth ar yr asedau hynny sy'n hwyluso mynediad i'r rhwydwaith rheilffyrdd, ac i reoli'r GaPC er mwyn sicrhau bod y seilwaith yn cael ei reoli mewn ffordd effeithiol ac effeithlon fel y bo modd darparu gwasanaethau rheilffordd drwy gydol y cyfnod interim hwn.

**Amcanion Strategol**

Mae Llywodraeth Cymru yn pennu ei blaenoriaethau ar gyfer TC yng nghyd-destun Symud Cymru Ymlaen 2016-2021, Ffyniant i Bawb, y strategaeth genedlaethol, y Cynllun Gweithredu ar yr Economi, a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Yn ogystal, mae'r Prif Weinidog wedi ymrwymo i rymuso TC i ddarparu system trafnidiaeth gyhoeddus sydd â'r nod o gynnig mynediad haws i fysiau, trenau a dulliau teithio llesol ar gyfer siwrneiau bob dydd. Mae'n debygol y bydd blaenoriaethau Llywodraeth Cymru mewn llythyrau cylch gwaith yn y dyfodol yn cael eu pennu yng nghyd-destun Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a blaenoriaethau Gweinidogion Cymru ar gyfer y flwyddyn o dan sylw.

**Y Rheilffyrdd**

Gwasanaeth Rheilffyrdd Cymru a'r Gororau

Dylai TC barhau i ddatblygu cynllun i sicrhau bod cerbydau newydd a archebir o dan y contract Gwasanaethau Rheilffyrdd ar gael i'w defnyddio cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl ar ôl i'r sefyllfa bresennol o argyfwng ddod i ben. Rhaid i'r cynllun hwnnw amlinellu sut y bwriedir mynd i'r afael â materion sy'n gysylltiedig â phrofi cerbydau, â sicrhau bod lled yr echel yn addas ar gyfer y trac, a hyfforddi gyrwyr, gan wneud hynny cyn gynted ag y bydd y cerbydau cychwynnol ar gael oddi wrth y gweithgynhyrchwr. Rhaid i'r cynllun hefyd nodi'r gwrthgymhellion a welir weithiau yn y diwydiant rheilffyrdd, a sut y bwriedir eu goresgyn.

Cledrau Craidd y Cymoedd

Fel y dywedwyd uchod, trosglwyddwyd ased Llinellau Craidd y Cymoedd i TC ar 28 Mawrth. Yn ogystal â sicrhau bod yr anghenion uchod yn cael eu diwallu, rhaid i TC hefyd ddatblygu mwy ar ei allu a'i gynlluniau i ddarparu gwasanaethau 'busnes fel arfer' pan ddaw'r cyfnod hwn o argyfwng i ben, ac i gyflawni'r Prosiect Trawsnewid ar gyfer y Metro ar hyd Cledrau Craidd y Cymoedd. Yn rhan o'r gwaith hwnnw, rhaid i TC sicrhau ei fod yn cynnal y cwmni Rheolwr Seilwaith pan Fetha Popeth Arall, sydd newydd gael ei greu, a sefydlu prosesau llywodraethu cadarn i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r dyletswyddau statudol i weithredu'r ased yn ddiogel ac â gofynion rheoleiddiol y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd.

**Cyngor Arbenigol a Rheoli Prosiectau**

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddibynnu ar TC am gyngor a gwasanaethau ymgynghori proffesiynol, gan gynnwys cyngor ar faterion sy'n gysylltiedig â'r rhwydwaith bysiau, y rhwydwaith ffyrdd strategol, Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG), teithio llesol a datblygu'r achos dros fuddsoddi yn y rhwydwaith trafnidiaeth.

Disgwylir i TC barhau i newid y cydbwysedd rhwng y defnydd a wneir o weithwyr a gyflogir gan TC a'r defnydd a wneir o ymgynghorwyr allanol ar draws y gwasanaethau. Dylai feithrin gwybodaeth, dealltwriaeth, gallu a deallusrwydd yn fewnol. Rhaid i TC feithrin y capasiti mewnol a'r gallu i gydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru i ddatblygu achosion busnes ac astudiaethau dichonoldeb unigol.

**Rhaglen Trafnidiaeth Integredig y Dyfodol**

Ar ôl rhoi'r gorau i'r rhaglen uchod am y tro er mwyn canolbwyntio ar yr argyfwng sydd ohoni, mae angen inni ailystyried yr amserlen weithgarwch ar gyfer trosglwyddo'r cyfrifoldeb dros gyflawni amryfal swyddogaethau i TC. Felly, dylai TC ailedrych ar yr amserlen ar gyfer y rhaglen a bod mewn sefyllfa i gynnig amserlen weithgarwch newydd a fydd yn ei alluogi i ddarparu ar ran Gweinidogion Cymru ym maes bysiau, hedfan a theithio llesol. Dylai'r amserlen hon fod yn barod ar gyfer ei thrafod ar yr adeg briodol pan ddaw'r cyfnod hwn o argyfwng i ben.

**Strategaeth Drafnidiaeth Cymru**

Pan ddaw'r cyfnod hwn o argyfwng i ben, bydd yn hollbwysig bod gan Gymru gynllun adfer, a bydd y cynllun adfer hwnnw'n rhan o Strategaeth Drafnidiaeth Cymru.

Bydd gofyn i TC helpu i ddatblygu Strategaeth Drafnidiaeth Cymru (SDC), gan gynnwys y sylfaen dystiolaeth a'r gwaith modelu ar ei chyfer, rheoli prosiectau, cynnal arfarniad cynaliadwyedd integredig (gan gynnwys profi'r opsiynau), cyfathrebu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, a llunio dogfennau a graffigwaith. Bwriedir i SDC gael ei chyhoeddi ym mis Rhagfyr 2020.

Er mwyn bod yn barod i helpu gyda'r gwaith uchod, dylai TC ddatblygu mwy ar ei Uned Ddadansoddi er mwyn sicrhau ei fod yn gallu ymgymryd â gwaith modelu trafnidiaeth, yn gallu sicrhau ansawdd gwaith dadansoddi, monitro a dadansoddi data, rhoi cyngor ar dechnegau arolygu a dadansoddi, a pharatoi a chyflwyno gwybodaeth er mwyn helpu Llywodraeth Cymru a'n partneriaid i ddatblygu polisi.

**Brand TC**

Dylai TC barhau i ymdrechu i'r eithaf i godi ymwybyddiaeth am TC ac i wella'r canfyddiad ohono ymhlith teithwyr, y cyhoedd yn gyffredinol, ei randdeiliaid a chadwyni cyflenwi. Dylid arfer rheolaeth dynnach dros reoli'r brand, a dylai TC fanteisio ar y brand a'i ddefnyddio i symbylu arloesedd ym mhob agwedd ar ei fusnes, gan amrywio o ragoriaeth ym maes marchnata a chyfathrebu, i ansawdd uchel ar draws yr holl agweddau ar wasanaethau i gwsmeriaid, i syniadau beiddgar ac uchelgeisiol ar gyfer prosiectau mwy a fydd yn gwneud y brand yn rhan annatod o wead ein bywydau yng Nghymru.

Dylai brand Rheilffyrdd TC (sef y brand a ddefnyddir gan y GaPC wrth ddarparu gwasanaethau rheilffyrdd i deithwyr) gael ei gyfuno â phrif frand TC, ac ni ddylid defnyddio brand gwahanol ar gyfer y gwasanaethau hynny.

**Cynllun Busnes**

Dylai TC lunio cynllun gweithredol/cynllun busnes interim cyn diwedd mis Mai, gan amlinellu sut y bydd yn cyflawni'r amcanion hyn yn ystod y cyfnod hyd at fis Mehefin 2020. Er y bydd y cynllun hwnnw, o reidrwydd, yn un byr, bydd angen i TC hefyd baratoi rhagolwg ariannol ar gyfer y gweithgarwch uchod dros yr un cyfnod, fel y nodir isod.

Wrth ddatblygu'r cynllun busnes hwn, dylai TC bennu amcanion busnes clir, gan ystyried y mesurau brys ynghyd â dangosyddion perfformiad y gellir eu monitro a chyflwyno adroddiadau yn eu cylch drwy gydol y cyfnod. Bydd y gwaith monitro hwn yn hollbwysig er mwyn asesu effeithiolrwydd TC wrth gyflawni canlyniadau'r mesurau interim.

Rydym yn disgwyl hefyd i TC, wrth iddo fynd ati i lunio'r cynllun busnes, ystyried sut y bydd yn Cefnogi'r Gymraeg a Diwylliant, a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Dylai TC barhau i ddatblygu'r rôl bwysig y mae'n ei chwarae o ran cefnogi'r Gymraeg a diwylliant, gan gydnabod yr amrywiaeth sydd i'w gweld yn rhanbarthau Cymru, anghenion cymunedau, a buddiannau grwpiau gwahanol o deithwyr.

Gan fod TC yn gwmni sydd ym mherchenogaeth lwyr y llywodraeth, mae'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru ei fod yn gweithio yn unol â'r pum ffordd o weithio sy'n cael eu hamlinellu yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae'n ofynnol ichi gyflwyno adroddiad i Lywodraeth Cymru ynglŷn â sut y mae TC yn defnyddio'r pum ffordd o weithio, sut y mae hynny'n cyfrannu at gyflawni'r saith nod llesiant, a sut y bydd yn gwneud cynnydd yn hyn o beth o'r naill flwyddyn i'r llall.

**Cyllid**

Ceir cadarnhad isod am y cyllid ar gyfer gweithgarwch y 3 mis nesaf:



| | |
|---|---|
| | **Terfyn** |

| | |
|---|---|
| Cyllid Refeniw Cronnol | £60.9 miliwn |
| Cyllid Cyfalaf Cronnol | £70.5 miliwn |
| Cymorth Refeniw Ychwanegol ar gyfer y GaPC | £40.2 miliwn |

Sylwer y gallai'r cyllid dangosol hwn fod yn llai neu'n fwy, gan ddibynnu ar sawl ffactor, yn eu plith:

- newid i flaenoriaethau'r Llywodraeth neu i bortffolios gweinidogol
- amrywiadau yn y Gyllideb

Yn ystod cyfnod y llythyr cylch gwaith interim hwn, ac er mwyn cydnabod y cyfyngiadau ariannol y gallai Llywodraeth Cymru eu hwynebu wrth fynd i'r afael â COVID-19, dylid trafod a chlirio gwariant ar unrhyw brosiectau heblaw ymrwymiadau contractiol gyda swyddogion LlC.

Mae'r cyllid a fydd ar gael ar gyfer y cyfnod interim hwn yn seiliedig ar yr hyn yr ydych wedi nodi y mae ei angen arnoch yn yr hinsawdd sydd ohoni. Er bod y cyllid hwn yn cael ei ddarparu yn awr, bydd angen iddo gael ei gysoni pan gyhoeddir y llythyr cylch gwaith nesaf, ac mae'n cael ei ddarparu yng nghyd-destun y gyllideb flynyddol gyffredinol a fydd ar gael i Trafnidiaeth Cymru, na phenderfynwyd arni eto. Ni ddylid cymryd bod y cyllid hwn yn arwydd ein bod yn derbyn unrhyw gynllun busnes/rhaglen waith ddrafft a drafodwyd gyda Llywodraeth Cymru hyd yma.

Bydd y cyllid yn cael ei dalu ymlaen llaw i TC ar ffurf grant misol a fydd yn seiliedig ar hawliad chwarterol y Cwmni. Bydd taliadau a gaiff y Cwmni ymlaen llaw yn cael eu gosod yn erbyn y terfynau cyllido cronnol yn ystod y broses fisol o dynnu'r grant misol i lawr. Bydd gwariant gan y Cwmni yn cael ei gysoni yn ystod y Cyfnod.

Mae'r Terfyn Cyllid Refeniw Cronnol a'r Terfyn Cyllid Cyfalaf Cronnol yn cynnwys unrhyw atebolrwydd ar TC i dalu TAW na fydd yn gallu ei hadennill.

Bydd y cyllid yn cael ei ddarparu yn unol â'r canllawiau cyllidebu ar gyfer cyrff cyhoeddus, a dylid ei ddefnyddio a chyflwyno adroddiadau yn ei gylch yn unol â'r canllawiau hynny.

Er bod TC yn gwmni corfforedig o dan y Ddeddf Cwmnïau ac er bod yn rhaid iddo gyhoeddi'i gyfrifon blynyddol yn unol â hynny, oherwydd ei fod yn gwmni sydd ym mherchenogaeth lwyr Llywodraeth Cymru, mae'n ofynnol iddo hefyd gyflwyno cyfrifon wedi'u haddasu i LlC. Dylai'r cyfrifon hynny gydymffurfio â'r gofynion cyfrifyddu ar gyfer cyrff cyhoeddus sydd i'w gweld yn y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol. Mae'r amserlen ar gyfer cyflwyno'r cyfrifon hynny i'w gweld yn y Cytundeb Rheoli.

**Trefniadau Goruchwylio**

Bydd y tîm sy'n eich noddi yn cysylltu â chi yn y man i drefnu cyfarfod i drafod trefniadau goruchwylio ac adrodd ar gyfer y cyfnod interim hwn. O ran goruchwylio, mae Llywodraeth Cymru yn gwneud hynny ar sail risg, ac mae'n cydweithio â'r sefydliad unigol i nodi'r lefel briodol o oruchwyliaeth a monitro ar ei gyfer.

Dylid ystyried y llythyr hwn ar y cyd â'r ddogfen Fframwaith a'r llythyr blynyddol sy'n cadarnhau cyllid.

Rwy'n edrych ymlaen at gydweithio â chi i fynd i'r afael â'r heriau sylweddol sy'n ein hwynebu ar hyn o bryd ac i ddechrau edrych at y dyfodol a chynllunio ar ei gyfer.

Yn gywir,

**Ken Skates AS/MS**
Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru
Minister for Economy, Transport and North Wales

# Eitem 3

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 7

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 8

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon